

Atodiad A

Practis Meddygol Cyffredinol

Cynllun Gwella

Practis:

Meddygfa Plas Menai

Dyddiad yr arolygiad:

03 Medi 2015

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf					
7	Gwnaethom argymhell bod rheolwyr y practis yn datblygu system reolaidd ar gyfer casglu adborth gan gleifion. Dylai'r practis ddangos bod adborth gan gleifion wedi cael ei ddefnyddio i ddylanwadu ar safonau a/neu eu gwella.	6.3	Bydd y practis yn dosbarthu holiadur bodlonrwydd cleifion bob blwyddyn. Cynhaliwyd yr holiadur hwn yn ddiwethaf ym mis Hydref 2014, ac mae'r adborth wedi cael ei ddefnyddio i lywio ein system apwyntiadau presennol.	Rheolwr y Practis	Yn flynyddol Bydd yr holiadur nesaf yn cael ei gynnal erbyn mis Medi 2016.

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol					
9	Gwnaethom argymhell bod y practis yn ystyried dull o gofnodi gwybodaeth am ofalwyr. Dylai hyn helpu'r staff i ystyried anghenion y gofalwyr a'u cyfeirio at wybodaeth a gwasanaethau perthnasol a allai fod o fudd iddynt.	4.1, 6.1	Mae gan y practis eisoes gofrestr gofalwyr gyfrifiadurol ar waith, a chafodd y gofrestr hon ei hegluro i'r arolygwyr yn ystod yr ymweliad. Mae problemau wedi bod ynglŷn â diweddaru'r gofrestr hon, a sicrhau ei bod yn gyfredol. Mae gwybodaeth a chyfeiriadau ynglŷn â'r Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr a sefydliadau eraill ar gael ac yn hawdd eu cyrraedd, yn yr ystafell aros a hefyd yn ystod ymgynghoriadau â meddygon teulu. Mae'r practis wedi cynnwys adran yn yr holiadur cleifion newydd lle mae cleifion yn gallu ychwanegu gwybodaeth am eu sefyllfa ynglŷn â gofalwyr. Bydd y wybodaeth hon wedyn yn cael ei dynodi ar gofnodion cleifion, er mwyn i bob gweithiwr iechyd proffesiynol fod yn	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd ym mis Tachwedd 2015 Cwblhawyd

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			ymwybodol ohoni, ac fe fyddant yn gallu cyfeirio at adnoddau sy'n benodol i ofalwyr y claf. Hysbyswyd pob aelod o staff y dylid gwirio statws gofalwyr yn rheolaidd yn ystod ymgynghoriadau â meddygon teulu a staff nyrsio.		Rhagfyr 2015
9	Dylai'r practis ystyried sut y gallant wneud cynnydd ar eu cynllun datblygu personol mewn modd a fydd yn hybu iechyd a lles y cleifion wrth gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Yn ystod adolygiadau datblygiad personol staff, ac mewn cyfarfodydd, bydd maes iechyd a lles cleifion yn cael ei drafod, a lle mae hynny'n briodol, bydd yn cael ei gysylltu ag amcanion personol. Mae'r practis yn gweithio'n agos gyda'r clwstwr. Mewn cydweithrediad â'r clwstwr ansawdd a chynhyrchedd meddygon teulu lleol, mae dogfen ddynamig ar waith sy'n ymateb i'r newidiadau o fewn y practis a'r clwstwr mewn perthynas â chynllunio gwasanaethau. Mae'r practis yn cwrdd yn rheolaidd â'r clwstwr er mwyn trafod darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion a	Rheolwr y Practis/Pob aelod o staff	31 Mawrth 2016 Yn parhau

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			datblygiadau yn y dyfodol.		
11	Dylai'r practis nodi a threfnu hyfforddiant addas ar gyfer aelodau staff sy'n ymwneud â rhoi presgripsiynau amlroddadwy.	7.1	Mae staff y dderbynfa'n trefnu presgripsiynau amlroddadwy ar sail y wybodaeth sydd eisoes ar gofnod y claf yn unig. Os nad oes presgripsiwn amlroddadwy ar gael i'w argraffu, mae'r cais hwn yn cael ei drosglwyddo i un o'r meddygon teulu. Mae'r presgripsiynau amlroddadwy'n cael eu goruchwylio/monitro/addasu gan y meddygon teulu'n unig. Mae staff wedi cael eu hyfforddi i ddefnyddio gweithdrefn weithredu safonol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer rhoi presgripsiynau amlroddadwy. Mae staff y practis yn mynychu hyfforddiant a gynhelir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Rheolwr y Practis	Gweithdrefn au parhaus Gweithdrefn au parhaus Dwywaith y flwyddyn

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			ddwywaith y flwyddyn.		
11	Dylai'r practis sicrhau bod ganddo systemau cadarn ar waith ar gyfer cwblhau archwiliadau meddyginiaeth, gan gynnwys dadansoddi'r wybodaeth a chymryd camau gweithredu o ganlyniad.	2.6, 3.1, 3.3	Mae hon yn broses barhaus gyda thîm rheoli meddyginiaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r clwstwr ansawdd a chynhyrchedd lleol. Trafodir yr adolygiadau hyn mewn cyfarfodydd meddyg teulu er mwyn iddynt gael eu hadolygu gan gymheiriaid.	Rheolwr y Practis	Proses barhaus
12	Mae angen hysbysu AGIC am y camau gweithredu a gymerwyd gan y practis i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn os oes honiad neu amheuaeth o gam-drin plentyn a/neu oedolyn. Dylai aelodau staff sicrhau bod cofnodion cleifion yn cynnwys digon o wybodaeth ynglŷn ag unrhyw honiadau a/neu wybodaeth a dderbyniwyd am faterion	2.7, 3.5	Bydd sylwadau o'r adroddiad hwn yn cael eu trafod mewn cyfarfod practis llawn. Mae pob aelod o staff wedi cwblhau eu hyfforddiant diogelu plant, ac mae'r holl weithdrefnau a rhifau cyswllt ar gael ar gyfer pob aelod o staff – rhoddwyd amlinelliad o hyn i'r arolygwyr yn ystod yr ymweliad. Trafodwyd y ffaith hon ar ôl yr arolygiad â phob aelod o staff, er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff	Meddyg Teulu'r Practis sy'n Arwain ar Ddiogelu	Wedi'i gwblhau ar adeg yr arolygiad

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	amddiffyn/diogelu plant neu oedolion.		yn ymwybodol o'r sefyllfa. Mae pob aelod o staff wedi cael ei hysbysu er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth ddiogelu berthnasol sydd ei hangen yn cael ei hychwanegu at y cofnodion cleifion gan y staff clinigol perthnasol ar yr adeg briodol.		Cwblhawyd Rhagfyr 2015
12–13	Dylid dod o hyd i hyfforddiant diogelu oedolion/amddiffyn oedolion agored i niwed a'i ddarparu ar gyfer staff cyn gynted ag y bo modd. Dylid llunio polisi diogelu oedolion/amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed cyn gynted ag y bo modd (gan ystyried Polisi a Gweithdrefnau Interim Cymru ar gyfer Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed rhag Cael eu Cam-drin (2013), a phrosesau diogelu'r awdurdod	2.7, 3.5	Mae'r practis yn datblygu polisi mewnol ar gyfer staff, sy'n cynnwys gweithdrefnau penodol i staff eu dilyn pe bai ganddynt unrhyw bryderon ynglŷn â chlaf. Er mwyn sicrhau nad oes unrhyw fylchau yn y polisïau a gweithdrefnau tra bydd y polisi mewnol yn cael ei ddatblygu, mae gan staff fynediad at Bolisi a Gweithdrefnau Interim Cymru ar gyfer Amddiffyn Oedolion sy'n	Meddyg Teulu'r Practis sy'n Arwain ar Ddiogelu	31 Mawrth 2016 Ar waith ar adeg yr arolygiad

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	lleol), a sicrhau ei fod ar gael i bob aelod o staff.		Agored i Niwed rhag Cael eu Cam-drin (2013), a phrosesau diogelu'r awdurdod lleol, sydd ar gael i bawb yn swyddfa'r dderbynfa. Rydym wedi cael mynediad at hyfforddiant ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed ar-lein trwy Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a bydd staff yn cwblhau'r hyfforddiant hwn yn y practis, yn ôl amserlen a chyda manylion mewngofnodi unigol. Mae amserlen hyfforddi staff ar waith er mwyn rhoi blaenoriaeth i staff rheng flaen a staff clinigol yn gyntaf, ac wedyn cynnig yr hyfforddiant i'r staff sydd ar ôl. Mae pob aelod newydd o staff yn derbyn hyfforddiant ymsefydlu – sy'n cynnwys amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed – ac yn cael ei ymrestru ar gyfer hyfforddiant ar-lein yn awtomatig.		Pob aelod o staff erbyn mis Mehefin 2016 Yn parhau
13	Argymhellir bod y practis yn ffurfioli ei	2.1, 3.3, 7.1	Mae unrhyw ddigwyddiadau clinigol	Rheolwr y	Yn parhau

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	system ar gyfer rhannu gwybodaeth ynglŷn â digwyddiadau difrifol ac arwyddocaol ymhlith y tîm practis cyfan.		neu ddigwyddiadau arwyddocaol yn cael eu rhannu â staff clinigol pan fyddant yn digwydd. Mae cofnodion ar gael. Mae gwybodaeth am ddigwyddiadau nad ydynt yn glinigol yn cael ei rhannu â staff nad ydynt yn glinigol yn ysgrifenedig pan fydd y digwyddiadau'n digwydd. Mae'r practis yn adrodd digwyddiadau i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr trwy'r system Datix, sy'n cael ei defnyddio ar gyfer dysgu ledled gogledd Cymru.	Practis	Yn parhau Yn parhau
14	Dylid gwirio'r system dolen sain yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei bod yn gweithio'n iawn. Dylid atgoffa aelodau staff i ystyried y cymorth/cymhorthion y gellid eu	3.2, 4.2	Mae'r practis wedi cysylltu â chyflenwr y system dolen sain, sydd wedi llwyddo i wirio'r system a threfnu i ddarnau newydd gael eu hanfon. Unwaith mae'r system dolen sain wedi cael ei hailosod, byddwn	Rheolwr y Practis	31 Mawrth 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	defnyddio i ddiwallu anghenion cyfathrebu unigol pobl.		yn ei defnyddio. Yn y cyfamser, mae gan staff fynediad at wasanaeth Iaith Arwyddion Prydain. Mae eich adroddiad wedi nodi pa mor barod eu cymwynas yw staff wrth gleifion. Mae pob aelod o staff yn cael y diweddaraf ynglŷn ag unrhyw adnoddau newydd neu newidiadau ar gyfer cynorthwyo cleifion ag anghenion cyfathrebu y mae'r practis yn eu derbyn. Mae hwn yn hyfforddiant mewnol. Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth – mae mynediad wedi cael ei drefnu ar gyfer staff y practis – gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i staff rheng flaen fel rhan o amserlen – ond bydd pob aelod o staff yn cwblhau'r hyfforddiant o fewn tri mis.		30 Ebrill 2016
14	Dylid ystyried gwella'r cyfleoedd i	3.3, 7.1	Mae'r pwynt hwn yn cael ei ystyried.	Uwch-	

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	gydweithio ac i weithio/dysgu fel tîm ymhlith staff y practis.		Nid yw'r practis yn gallu defnyddio amser neilltuedig, ac nid oes unrhyw amser rhydd yn ystod y dydd y gellir ei ddefnyddio heb amharu ar argaeledd ar gyfer cleifion. Mae gan y tîm rheoli a meddygon teulu bolisi drws agored ar gyfer cyfarfodydd practis. Mae cyfarfodydd clinigol ar agor i nyrsys y practis, nyrsys ardal, staff y fferyllfa, ac asiantaethau allanol eraill. Mae'r practis yn teimlo bod y system hon yn fwy anffurfiol ac yn fwy hygyrch, ac mae'n gweithio'n dda. Cytunwyd i gynnal cyfarfod estynedig ar ddydd Llun cyntaf bob mis, gyda gwahoddiad i bob aelod o staff clinigol a phob aelod o staff nad yw'n staff clinigol sy'n dymuno dod. Bydd hyn yn gyfle ar gyfer trafodaeth gydweithredol, er mwyn i staff drafod unrhyw faterion a phryderon. Mae'r practis hefyd yn gallu dosbarthu canllawiau NICE, a	bartneriaid y Practis	Cwblhawyd Rhagfyr 2015

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			gwybodaeth am ddigwyddiadau arwyddocaol a materion ynglŷn â dysgu a datblygu. Roedd yn rhaid gohirio arfarniadau staff ar gyfer 2015 oherwydd diffyg amser gan y meddygon teulu. Yn ôl yr amserlen, bydd arfarniadau'n cael eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn staff (Mawrth 2016). Yr unig flwyddyn a gollwyd oedd 2014.		31 Mawrth 2016
15	Er bod y ddarpariaeth gwybodaeth yn dda, gwnaethom argymhell bod yr hysbysiadau a oedd yn cael eu harddangos yn cael eu grwpio i gategorïau perthnasol, ac y dylid osgoi dyblygu yn gyffredinol. Dylai hyn alluogi cleifion i ddod o hyd i wybodaeth sy'n berthnasol i'w hanghenion nhw.	3.2, 4.2	Yn sgil trafodaeth bellach, cytunwyd y bydd y practis yn cynnal arolwg ar y pryd o gleifion yn yr ystafell aros, ynglŷn â darpariaeth gwybodaeth a pha mor hygyrch ydyw, ac wedyn gweithredu yn ôl y canfyddiadau. Bydd tua 20 i 30 o gleifion yn cael eu holi dros gyfnod o un wythnos, er mwyn sicrhau bod ystod o gleifion yn cael eu cynnwys.	Rheolwr y Practis	1 Mawrth 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
16	Gwnaethom argymhell bod y practis yn ystyried sut y gellid gwella'r system apwyntiadau, yng ngoleuni'r anfonlonrwydd a fynegwyd gan wyth o blith 20 o gleifion.	6.3	Mae'r practis wedi rhoi cynnig ar bob math o system apwyntiadau. Mewn hinsawdd lle mae diffyg difrifol meddygon teulu, yn anffodus bydd bob amser cleifion nad ydynt yn fodlon. Roedd rhai o'r sylwadau'n dangos nad oedd y cleifion o dan sylw wedi cysylltu â'r practis ers cryn amser, gan fod yr holl alwadau ffôn yn cael eu hateb yn y prif bractis yn Llanfairfechan – a dyma'r achos ers y ddwy flynedd diwethaf. Felly mae cleifion wedi camgymryd pan fyddant yn dweud y gofynnir iddynt bob amser ffonio Penmaenmawr i wneud apwyntiad. Byddai wedi bod yn ddiddorol gofyn i'r rhai a gynhwyswyd yn yr arolwg pan oeddent wedi gwneud yr apwyntiad yr oeddent yn ei fynychu ar y bore hwnnw. Mae ein cyfradd methu dod i'r apwyntiad yn broblem oherwydd	Rheolwr y Practis/Uwch-bartneriaid y Practis Meddyg Teulu	Bydd y system apwyntiadau yn cael ei hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn fel rhan o gyflwyniad Hunanasesu Llywodraethu Clinigol y Practis

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			bod ein holl apwyntiadau ar gael i'w cadw, ond rydym yn cymryd camau er mwyn gwella'r mater hwn. Nid ydym yn cynnig meddygfa agored, ond rydym yn sicrhau bod darpariaeth ar gael ar gyfer achosion brys sydd i'w gweld ar yr un diwrnod, yn enwedig ar gyfer plant. Byddai meddyg teulu ychwanegol yn gwneud gwahaniaeth i argaeledd apwyntiadau, ond mae recriwtio un yn broses anodd ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, mae pob meddyg teulu'n gweld tua 40 o gleifion bob dydd – o ystyried y sefyllfa bresennol o fewn gofal sylfaenol yng Nghymru gyfan a'r DU, ni chredwn y bydd y sefyllfa hon yn gwella yn y dyfodol agos. Mae hwn yn un o'r materion rydym yn eu trafod yn ein grŵp clwstwr meddygon teulu. Pe baech yn gallu rhannu unrhyw		

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			system apwyntiadau a welwyd gennych sy'n enghraifft o arfer da yn ystod eich arolygiadau, byddech yn ddiolchgar pe baech yn gallu rhannu'r wybodaeth hon â ni, gan fyddai hynny o gymorth inni a byddem yn falch o wrando.		
17	Dylid trwsio'r drysau awtomatig sy'n rhoi mynediad i'r feddygfa cyn gynted â phosibl.	2.1	Nid yw prif ddrws y practis yn ddrws awtomatig fel yr esboniwyd i'r arolygwyr. Mae botwm i agor y drws ar bwys y drws, yn hytrach na'r claf ei hun yn agor y drws, ond nid yw hyn wedi profi'n ymarferol. Ar hyn o bryd, mae'r practis yn adolygu opsiynau eraill er mwyn rhoi cymorth i bobl anabl ddod trwy'r prif ddrws. Oherwydd lleoliad presennol y drws a threfn y dderbynfa, mae nifer o faterion technegol sydd angen eu hadolygu.	Rheolwr y Practis	1 Mehefin 2016
17	Cynghorir y practis i ddod o hyd i	4.1, 6.2, 7.1	Mae'r practis wedi penderfynu cael	Rheolwr y	1 Mehefin

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth a'i ddarparu i'r staff.		yr hyfforddiant trwy wefan e-ddysgu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae rheolwr y practis wedi cysylltu â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn trefnu manylion mewngofnodi ar gyfer staff. Bydd unrhyw amserlen hyfforddiant yn nodi staff rheng flaen allweddol er mwyn rhoi blaenoriaeth iddynt ar gyfer yr hyfforddiant, ac wedyn gweddill staff y practis.	Practis	2016 (cwblhawyd gan bob aelod o staff)
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth					
18	Dylai'r practis sicrhau bod yr holl aelodau staff yn gyfarwydd â'r math o ddigwyddiadau y mae angen eu cofnodi'n ffurfiol fel digwyddiadau arwyddocaol.	2.1, 7.1	Mae staff wedi cael eu hatgoffa am y math o ddigwyddiadau arwyddocaol y mae'n rhaid eu hadrodd, er mwyn eu hatgoffa am negeseuon cyfathrebu blaenorol.	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd Rhagfyr 2016
19	Dylid ystyried gweithredu archwiliadau clinigol mewnol ac adolygiadau gan gymheiriaid yn rheolaidd, er mwyn gwella'r gwasanaeth a ddarperir ac i gynorthwyo'r gwaith o gynllunio adnoddau yn gyffredinol a datblygu	3.1, 3.3, 3.4	Mae hon yn broses barhaus, ac mae wedi bod ers blynnyddoedd maith. Fe'i gwneir mewn cydweithrediad â thîm rheoli meddyginiaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a fferyllydd practis Bwrdd Iechyd	Rheolwr y Practis ac Uwch-bartneriaid y Practis Meddyg Teulu	Yn parhau

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	yn y dyfodol.		Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'r canfyddiadau'n cael eu trafod ac unrhyw newidiadau sydd eu hangen yn cael eu gweithredu. Pan fyddant wedi cael eu cwblhau, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn monitro'r archwiliadau. Mae cynllunio adnoddau a datblygiadau ar gyfer y dyfodol yn eitemau parhaus ar agenda cyfarfodydd mewnol a chyfarfodydd allanol, gan gynnwys y grŵp clwstwr meddygon teulu. Mae'r practis wedi cymryd rhan mewn archwiliadau cenedlaethol ar gyfer diabetes a chlefyd cronig yr arennau yn ystod 2015. Bydd y posibilrwydd o gynnal archwiliadau mewnol pellach yn cael ei ystyried yn ystod y cyfarfod		

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			practis nesaf.		
19	Sicrhau bod staff yn derbyn arfarniad blynyddol a chynllun datblygu personol. Cadw cofnod o anghenion hyfforddiant aelodau staff unigol, y dyddiadau mynychu, a'r dyddiad y bydd angen cynnal yr hyfforddiant. Dylai hyn helpu rheolwyr i nodi bylchau yn eu gwybodaeth ac i ddod o hyd i gyfleoedd dysgu addas i'r staff.	7.1	Roedd yn rhaid gohirio arfarniadau staff yn 2015 oherwydd diffyg amser gan y meddygon teulu, ond yn ôl yr amserlen, byddant yn cael eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn staff (Mawrth 2016). Yr unig flwyddyn a gollwyd oedd 2014. Roedd tystysgrifau hyfforddi ar gael i'w harchwilio. Mae cyfleoedd yn cael eu trafod a'u ffurfioli'n rheolaidd – er bod y broses hon yn un anffurfiol. Mae'r holl wybodaeth sydd eisoes wedi cael ei chadw ynglŷn â hyfforddiant ar gyfer staff clinigol a staff nad ydynt yn staff clinigol wedi cael ei chyfuno ar un daenlen, sy'n dangos yr hyn sydd ei angen, yr hyn sydd wedi cael ei gwblhau, a phryd y bydd angen cynnal yr hyfforddiant nesaf. Pan fydd angen hyfforddiant/diweddaru hyfforddiant ac ati, bydd staff yn cael eu	Rheolwr y Practis/Uwch-bartneriaid y Practis Meddyg Teulu	31 Mawrth 2016 Cwblhawyd ym mis Tachwedd 2015

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			hatgoffa.		

Cynrychiolydd y practis:

Enw (llythrennau bras): **JAYNE WESTMORELAND (Rheolwr y Practis), DR CATHERINE HUGHES (Uwch-bartner y Practis Meddyg Teulu), DR LOUISE LOMAX (Partner y Practis Meddyg Teulu)**

Dyddiad: 18 Rhagfyr 2015